Gwybodaeth Feddygol

Adweithiau Ffug i'n Profion

Gwybodaeth i Roddwyr

NATIONAL BLOOD SERVICE

Adweithiau Ffug i'n Profion

Beth yw adweithiau ffug i'n profion?

Bob dydd rydym yn profi miloedd o roddion gwaed am heintiau y gellir eu trosglwyddo drwy'r gwaed. Weithiau, ceir adweithiau ffug i'r profion sgrinio rheolaidd awtomataidd hyn. Peidiwch â phoeni, nid oes gan yr adweithiau ffug hyn unrhyw arwyddocâd o ran eich iechyd na pha mor ddiogel yw eich rhodd gwaed.

Y gobaith yw y bydd y daflen hon yn ateb unrhyw gwestiynau y gallai fod gennych pe bai hyn yn digwydd i chi.

Pam fod adweithiau ffug yn digwydd?

Mae adweithiau ffug yn digwydd gyda phob prawf labordy, a bydd cyfran fach o roddion gwaed yn 'adweithio' waeth pa brawf bynnag a ddefnyddir. Pan fydd hyn yn digwydd mae gennym weithdrefnau penodedig i'w dilyn.

Canfyddiadau dros dro yw adweithiau ffug yn aml a gallant ddigwydd yn sgîl:

- annwyd neu'r ffliw diweddar sy'n gallu achosi gwrthgyrff i ddatblygu sy'n adweithio gyda chemegau'r prawf
- newid i weithgynhyrchydd newydd neu gyfres newydd o brofion

Sut y gallwn fod yn siŵr fod yr adweithiau yn ffug?

Pan fydd adwaith i un o'n profion, rydym yn cynnal profion ychwanegol, mwy manwl ar yr un sampl i gadarnhau'r canfyddiadau. Os bydd y profion hyn yn negyddol, gallwn fod yn hyderus bod yr adweithiau'n ffug a'u bod o ganlyniad i broblemau technegol yn unig.

Beth rydym yn ei wneud pan welwn adwaith ffug?

Nid oes gan adweithiau ffug unrhyw oblygiadau i'ch iechyd na pha mor ddiogel yw'r gwaed. Fodd bynnag, nid yw ein rheoliadau yn caniatáu i ni anfon gwaed i ysbytai oni fydd y profion sgrinio gwreiddiol yn negyddol, hyd yn oed pan gawn ganlyniadau negyddol i'r profion ychwanegol.

Mae'r rheoliadau hefyd yn mynnu ein bod yn ailadrodd y profion ar ôl caniatáu digon o amser (rhai misoedd, fel arfer) i'r adwaith ddiflannu. Er mwyn ailadrodd y profion, ac er mwyn osgoi gwastraffu gwaed, byddwn yn cymryd sampl bach o waed y tro nesaf y byddwch yn mynychu, yn hytrach na rhodd lawn. Yna, byddwn yn eich hysbysu o ganlyniadau'r prawf cyn gynted â phosibl.

Diolch yn fawr am ddarllen y daflen hon. Gobeithiwn eich bod wedi'i chael yn ddefnyddiol a'i bod wedi rhoi esboniad digonol i chi am rywbeth sy'n digwydd yn weddol aml fel na fyddwch yn poeni pe bai'n digwydd i chi.

Adweithiau Ffug i'n Profion

Rydym yn ddiolchgar iawn am eich cymorth ac mae'n ddrwg gennym fod y broblem dechnegol hon wedi codi mewn perthynas â'ch gwaed chi.

Os hoffech ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni ar y rhif a roddir yn y llythyr.

Os ydych wedi rhoi gwaed a'ch bod yn mynd yn sâl (ac eithrio annwyd) yn y bythefnos ar ôl rhoi, ffoniwch ein llinell gymorth i roddwyr ar 0845 7 711 711 cyn gynted â phosibl.

INF/MED/CM/023/01 WLC254B 04/05

Gwnewch rywbeth hynod heddiw

Achubwch fywyd

Rhowch waed